# Ffurflen Wybodaeth RHIENI/GWARCHEIDWAID

**Creu asesiad diagnostig o lythrennedd yn y Gymraeg i ddysgwyr 11.0-16.11 oed**

Annwyl Rhiant/Gwarcheidwaid,

Mae eich plentyn wedi cael ei g/wahodd i gymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil. Rydym wedi creu'r daflen wybodaeth hon fel eich bod yn deall pwrpas y gwaith ymchwil a beth fydd angen i'ch plentyn wneud.

**Beth yw pwrpas yr astudiaeth?**
Pwrpas yr astudiaeth yw creu profion newydd fydd yn helpu mesur darllen, sillafu ac ysgrifennu yn Gymraeg.

**Pam bod fy mhlentyn wedi cael ei g/ofyn i gymryd rhan?**
Mae ysgol eich plentyn wedi cytuno i gymryd rhan yn yr astudiaeth ac wedi gofyn i'ch plentyn fod yn rhan hefyd. Mae'r astudiaeth yn edrych ar sut mae'r profion yma yn asesu sgiliau darllen ac ysgrifennu pobl ifanc.

**Oes rhaid i fy mhlentyn gymryd rhan?**
Mae cymryd rhan yn y prosiect hwn yn gwbl wirfoddol.  Mae hawl gyda chi neu'ch plentyn i dynnu'n ôl o'r gwaith ymchwil. Os hoffech chi wneud hyn yna defnyddiwch y cyfeiriad ebost yma: ESSHethics@cardiffmet.ac.uk.
Os ydych chi'n tynnu'n ôl cyn i ni gasglu data neu yn ystod y cyfnod casglu data, byddwn yn dileu unrhyw ddata wnaethoch chi a'ch plentyn ddarparu. Os ydych chi'n tynnu'n ôl ar ôl hyn, yna byddwn yn tynnu unrhyw ddata lle y mae modd eich adnabod neu adnabod eich plentyn.

**Beth fydd cymryd rhan yn ei olygu?**
Mae 8 ran i'r prawf

- Prawf sillafu
- Prawf cyflymdra ysgrifennu
- Prawf cywirdeb darllen
- Prawf cyflymdra darllen
- Prawf hepgor seiniau
- Prawf adnabod cyflythreniad
- Prawf adnabod odl
- Prawf enwi cyflym

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Bydd eich plentyn gwneud y profion gydag athro yn yr ysgol. Bydd pob rhan o'r prawf yn cymryd rhwng 2-8 munud, ar wahân i'r prawf cyflymdra ysgrifennu fydd yn cymryd 10 munud. Bydd yr athro yn nodi marciau wrth i'ch plentyn wneud y profion.

Bydd angen i ni hefyd gasglu gwybodaeth am iaith/ieithoedd y cartref, felly bydd yr athro yn gofyn i'ch plentyn lenwi holiadur byr am hwn.

**Beth os yw'r profion yn datgelu rhywbeth am fy mhlentyn nad oeddwn i'n ei wybod?**
Mae'r profion wedi'u cynllunio i fesur pedwar peth:

- Pa mor gyflym mae disgyblion yn ysgrifennu neu yn darllen yn Gymraeg o gymharu â disgyblion eraill o'r un oedran
- Unrhyw batrymau i'r mathau o gamgymeriadau mae disgyblion yn eu gwneud wrth ysgrifennu yn Gymraeg
- Pa mor dda gall ddisgybl sillafu neu ddarllen yn Gymraeg o gymharu â disgyblion eraill o'r un oedran
- Unrhyw sgiliau sylfaenol nad ydynt wedi datblygu cystal â disgyblion eraill o'r un oedran, ac a fyddai'n effeithio ar ddatblygiad llythrennedd y disgybl.

Os yw'n ymddangos wrth farcio'r profion fod gan eich plentyn anhawster gyda llythrennedd nad yw wedi'i nodi eisoes gan yr ysgol byddwn yn siarad â Chydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol am yr hyn mae'r profion yn ei ddangos. Bydd y Cydlynydd ADY yn gallu delio â'r wybodaeth hon yn unol â pholisïau'r ysgol a rhoi gwybod i chi a'ch plentyn.

**Sut bydd data a phreifatrwydd fy mhlentyn yn cael eu diogelu?**

Bydd data eich plentyn yn cael ei gadw'n gyfrinachol drwy gydol yr astudiaeth. Ni fydd enwau ynghlwm wrth unrhyw adroddiadau yn yr astudiaeth. Bydd yr holl ddata megis enwau, dyddiad geni, a sgorau profion yn cael eu storio ar gyfrif diogel, One Drive, Met Caerdydd yn ystod y prosiect ac am ddeg mlynedd wedi hynny. Yna, bydd y data yn cael ei ddileu.

**Pwy sy'n rhan o'r prosiect?**
Marjorie Thomas, Dr Rhiannon Packer, Dr Katharine Young. Mae'r prosiect wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru. Fe fydd yr ysgol yn derbyn tâl am ddychwelyd y data, ac fe fydd y taliadau unigol hyn yn cael eu gweinyddu gan y tîm ymchwil.

**Os hoffech chi siarad â rhywun ar ôl cymryd rhan yn y gwaith hwn, gall y canlynol fod o gymorth:**

Meic (llinell gymorth gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth i blant a phobl ifanc) 080 880 23456 / 07943 114 449

**Rhif Cyfeirnod: CSESP -Sta-55**
**Teitl y Prosiect:** *Creu asesiad diagnostig o lythrennedd yn y Gymraeg i ddysgwyr 11.0-16.11 oed*

British Dyslexia Association: https://www.bdadyslexia.org.uk/dyslexia
NHS: https://www.nhs.uk/conditions/dyslexia/

**Os oes rhagor o gwestiynau gennych am y proseict neu os hoffech chi gysylltu â ni am unrhyw reswm, mae ein cyfeiriadau ebost isod:**
Marjorie Thomas: mthomas@cardiffmet.ac.uk
Dr Rhiannon Packer: rajpacker@cardiffmet.ac.uk

Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth,

Marjorie Thomas a Rhiannon Packer